Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried:
# Y Bil Seilwaith (Cymru)

Mehefin 2023

Ar 12 Mehefin 2023, cyflwynwyd y Bil Seilwaith (Cymru) yn y Senedd.

Ar 16 Mai 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 6 Mehefin 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 24 Tachwedd 2023.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 23 Chwefror 2024, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.